

Canllaw Rhif 5 i Ddefnyddwyr

Cael hyd i'ch cofnodion mabwysiadu

A gawsoch chi'ch mabwysiadu? Ydych chi'n ceisio cael hyd i'ch rhieni biolegol? Neu a gafodd un o'ch rhieni neu'ch teidiau neu'ch neiniau eu mabwysiadu?

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn ceisio rhoi gymaint o gymorth â phosibl i unrhyw un sy'n chwilio am eu cofnodion mabwysiadu nhw'u hunain neu gofnodion mabwysiadu perthynas. Paratowyd y daflen hon i'ch helpu chi i ddeall sut y gallwn helpu, beth yw'r drefn arferol a phryd y bydd angen i ni'ch cyfeirio at rywun arall a allai'ch helpu.

Y COFNODION

Mae'r Cyngor yn cadw'r cofnodion sy'n ymwneud â phob achos o fabwysiadu yn Sir y Fflint am 120 o flynyddoedd. Bydd y cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel rhag ofn y bydd rhywun am wybod am fanylion y broses mabwysiadu, gan sicrhau na fyddant yn cael eu colli na'u dinistrio. Nid ydynt ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn ystod y cyfnod hwn. Ar ôl 120 o flynyddoedd, pan fydd sicrwydd nad yw'r sawl a gafodd ei fabwysiadu'n dal yn fyw, caiff y dogfennau naill ai eu dinistrio neu eu trosglwyddo i Archifdy'r Sir i'w cadw'n barhaol ac i'r cyhoedd gael eu gweld.

Yn ogystal â dogfennau'r adran gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor a ddeliodd â'r achos ar y pryd, bydd dogfennau'r llys a ganiataodd y gorchymyn mabwysiadu hefyd ar gael. Mae'n bosibl mai'r Cyngor sy'n cadw'r rhain erbyn hyn.

BLE'R YDW I'N DECHRAU?

Os ydych chi'n chwilio am fanylion rhywun a gafodd ei fabwysiadu **dros** 120 o flynyddoedd yn ôl, cysylltwch â'r Archifdy (manyion cysylltu i'w cael ar diwedd y taflen). Bydd y staff yn gallu dweud wrthy'ch a oes unrhyw ddogfennau perthnasol ar gael. Mae'n annhebygol, fodd bynnag, y byddant yn gallu gwneud hyn ar unwaith dros y ffôn, felly byddai'n well i chi wneud cais drwy anfon e-bost neu lythyr.

Os ydych chi'n chwilio am fanylion rhywun a gafodd ei fabwysiadu **lai** na 120 o flynyddoedd yn ôl, bydd angen i chi ystyried y canlynol:

Ydi'r dogfennau rydych chi'n chwilio amdanynt yn ymwneud â chi'ch hun, neu berthynas gwaed? Os nad ydynt, ai chi yw cynrychiolydd cyfreithiol y person a gafodd ei fabwysiadu neu'r perthynas gwaed?

Os "NAC YDYNT/NA" yw'r ateb i'r ddau gwestiwn uchod, caiff eich cais ei drin fel cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a dylech ddilyn y drefn arferol ar gyfer ceisiadau o'r fath. Mae'n bosibl gwneud cais drwy fynd i wefan y Cyngor (www.siryfflint.gov.uk – edrychwch o dan D am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn yr adran Gwasanaethau A-Y) neu anfonwch lythyr at: Rhyddid Gwybodaeth (Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes), Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, CH7 6NB.

Os “YDYNT/ IE” yw’r ateb, bydd y drefn yn newid gan ddibynnu a ydych chi’n byw yng Ngogledd Cymru, yn rhywle arall yn y DU, neu dramor.

Os ydych chi’n byw yng Ngogledd Cymru, dylech gysylltu â:

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Ffôn: 0800 085 0774

Wefan: www.northwalesadoption.gov.uk

Os ydych chi’n byw yn rhywle arall yn y DU, dylech gysylltu â’r Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol, a fydd yn cysylltu â Chyngor Sir y Fflint ar eich rhan.

Os ydych chi’n byw dramor, dylech gysylltu â Gwasanaeth Maethu Cyngor Sir y Fflint (ffôn 0044-1352701930 new drwy anfon ymholiad at y tîm o wefan Cyngor Sir y Fflint gan clicio ar y botwn “anfon ymholiad” ar y hafanddalen ac dewis “mabwysiadu” fel y math o ymholiad) a chewch wybod beth i’w wneud nesaf. Bydd y drefn yn dibynnu ar y wlad rydych chi’n byw ynddi.

YR HAWL I WELD COFNODION

Os ydych chi wedi cysylltu â’r Archifdy i holi am ddogfennau sydd dros 120 oed, bydd y staff yn rhoi gwybod i chi a ydynt yn cael eu cadw yno. Os ydynt, cewch wahoddiad i ymweld â’r Archifdy i weld y dogfennau gwreiddiol neu, os nad fydd yn hyn yn bosibl, mae’n bosibl y cewch weld copïau ohonynt.

Os ydych chi wedi cysylltu â Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, eich Cyngor Lleol neu asiantaeth arall i holi am ddogfennau sy’n llai na 120 oed, bydd yr asiantaeth dan sylw’n eich helpu a’ch arwain drwy’r broses o hynny ymlaen.

Gwybodaeth Bellach:

Cyn ichi ymweld ag Archifdy Sir y Fflint, fe’ch cynghorir i ddarllen ein ‘Canllaw i Ddechreuwyr ar Ymweld ag Archifdy Sir y Fflint’ ([Canllaw Rhif 1 i Ddefnyddwyr](#)). Mae’n cynnwys cyngor ar sut i ymbaratoi ar gyfer eich ymweliad ymlaen llaw, a’r hyn sydd ei angen arnoch. Hefyd mae gennym ‘Canllaw i Ddechreuwyr ar Ddefnyddio’r Ystafell Ymchwil’ ([Canllaw Rhif 2 i Ddefnyddwyr](#)), sy’n esbonio beth i’w wneud wrth ichi ymweld â’r Archifdy am y tro cyntaf. Bydd angen ichi wneud apwyntiad i weld y cofnodion gan ein bod yn defnyddio system archebu. Cysylltwch â’r Archifdy os hoffech wybod rhagor neu i wneud apwyntiad: **Ffôn. 01244 532364** neu **e-bost: archives@flintshire.gov.uk**. Cewch fynd at ein safle ar y we hefyd: www.flintshire.gov.uk/archives

Gobeithiwn y bydd yr arweinyfr hwn o help gyda’ch ymchwil, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i Archifdy Sir y Fflint.